# DINESYDD


## Ebrill

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1981

RHIF 76


# OWI RŴLS!



Llongyfarchwn Mr. Owen Edwards ar ei benodiad yn Brif Swyddog Awdurdod Darlledu Cymraeg Y Bedwaredd Sianel a dymunwn y gorau o bopeth iddo yn y gwaith anodd ac arwyddocaol sydd o'i flaen.

## C.N.D. YN CODI'I BEN ETO

Dychmygwch glywed eich plant yn sgrechian yn yr ardd, nid am eu bod wedi disgyn wrth chwarae ond am fod golau llachar wedi ymddangos yn yr awyr, golau mor llachar nes peri i'w llygaid doddi. Ie, toddi. Peidiwch â stopio darllen, da chi; nid stori erchyll sydd yma ond gwirionedd pur. Dyma un o'r digwyddiadau cyntaf petasai bom niwclar yn disgyn ar y wlad yma.

Bu E.P. Thomson, yr hanesydd enwog, yn siarad nos Wener, Mawrth 19, yn Undeb y Myfyrwyr yma yng Nghaerdydd am y posibilrwydd yma. Hefyd dangoswyd y ffilm 'The War Game'. Gwnaethpwyd y ffilm yma yn 1966 i'r BBC ond nis dangoswyd i'r cyhoedd a hawdd ar ôl ei gweld yw deall pam. Mae'n dangos yn union beth fasai'n debygol o ddigwydd ar ôl i'r bom ddisgyn. Y rhai lwcus fydd y rhai sy'n byw yn y dinasoedd mawr - mi fyddent farw'n syth. Pwy fasa eisiau bod yn un o'r miloedd fydd ar ôl yn dioddefu poen ofnadwy heb nag ysbyty na chyffuriau?

Ar ôl y ffilm siaradodd E.P. Thomson. Yn ei dyb ef rydym yn prysur gyrraedd y sefyllfa lle bydd rhyfel niwclar yn anochel. Mae'r sefyllfa yn gymleth iawn, a 'dyw hi ddim yn bosibl i drafod yr holl fanylion yma. Digon yw dweud bod yr hen bolisi o MAD (Mutual Assured Destruction) wedi diflannu. Heddiw mae'r arfau mwy soffistigedig fel yr arfau Cruise yn ei gwneud hi'n bosib i gynnal rhyfel niwclar cyfyngedig yn Ewrop yn unig.

Parhad ar dudalen 12.

Y CYFRIFIAD

Fel y cofiwch o rifyn diwethaf Y Dinesydd, bydd y cyfrifiad ar y 5-6 Ebrill, a bydd tri chwestiwn pwysig ychwanegol i ni yng Nghymru :

YDYCH CHI'N MEDRU SIARAD CYMRAEG?

YDYCH CHI'N MEDRU DARLLEN CYMRAEG?

YDYCH CHI'N MEDRU YSGRIFENNU CYMRAEG?

Gwelsoch negesau oddi wrth Gymry blaenllaw y dyddiau hyn, yn y papur, rhai oddi wrth bobl sydd wedi dysgu'r iaith, yn ein hannog i gyd, pa mor ychydig bynnag o Gymraeg y meddyliwn ein bod yn gallu'i siarad, ei darllen neu'i hysgrifennu, i ateb yn gadarnhaol.

COFIWCH WNEUD HYNNY.



Mwy o hanes y ferch hon ar dudalen 6

# MERCHED Y WAWR

MAIR ELVET THOMAS

Yn ddiweddar, penodwyd Mrs. Mair Elvet Thomas yn drefnydd cenedlaethol Merched y Wawr am y ddwy flynedd nesaf - hyd at ddiwedd 1982. Swydd newydd yw hon, a swydd ran amser i gychwyn. Llongyfarchiadau i Mrs. Thomas ar ei phenodiad.

Ond nid dyma'r unig beth y carem ei llongyfarch hi arno, oherwydd dyfarnwyd iddi Wobr Goffa Elis Gruffydd am 1980 am ei llyfr campus "Afiaith yng Ngwent", a adolygwyd yn y Dinesydd pan ddaeth allan.

Ar gymeradwyaeth y Bwrdd Gwybodau Celtaidd y gwnaed y dyfarniad gan Lys y Brifysgol.

Yn gysylltiedig â'r un pwnc, fe roddodd Mrs. Thomas ddarlith goffa Islwyn ym Mai 1980, ar "Agweddau ar fywyd llenyddol Gwent ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf", a chyhoeddi y ddarlith cyn bo hir gan Wasg y Brifysgol.

Haedda Mrs. Thomas ein diolch am daflu cymaint o oleuni ar un o'r ardaloedd mwyaf diddorol yng Nghymru.

CYWIRIAD

DALIER SYLW mai yng Nghapel Bethlehem, Eyre Street, Splott, y cynhelir Cymanfa Ganu Annibynwyr Caerdydd ar Sul y Blodau. Oedfaon am 2.30 a 6.00.

SYMUD O LAN Y LLYN I THORNHILL

Erbyn hyn mae Sally a Gareth Williams wedi symud o'r llyn i'r mynydd yn Rhiwbeina. Bydd y tair merch fach lawer yn agosach i'r ysgol yng Nghefn Onn ond fe fydd pobl y llyn yn gweld eu heisiau. Pob hwyl iddyn nhw yn eu cartref newydd.


ARCADE

Wales Fortnightly

Dylech fod wedi gweld *ARCADE*, cylchgrawn materion cyfoes newydd Cymru, erbyn hyn. Bob pythefnos rhown olau newydd ar wleidyddiaeth, llenyddiaeth, chwaraeon, darlledu, y celfyddydau, a materion economaidd a chymdeithasol.

Ond mae ffyniant tymor-hir *ARCADE* yn dibynnu ar gael rhestr danysgrifwyr dda. Os oes gennych ddiddordeb o ddifrif yn beth sy'n digwydd yng Nghymru anfonwch eich enw a chyfeiriad gyda siec (£14 am 24 rhifyn, £7 am 12) i ARCADE 43 Lower Cathedral Road, Caerdydd CF1 8LW. Os hoffech weld sampl gopi yn gyntaf, ysgrifennwch i'r cyfeiriad uchod a phostir un i chi ar unwaith.


MARWOLAETH SYDYN MRS. KATIE RUDD.

Roedd llawer yn flin iawn i glywed am farwolaeth Mrs. Katie Rudd yn Wrecsam. Un o aelodau ffyddlonaf Ebeneser oedd Mrs. Rudd. Bu'n gweini yng Nghartre'r Darby's yma yn Llandaf am flynyddoedd ac ar ôl colli'i gŵr mewn ffordd erchyll drwy dân bu'n gweithio yn gydwybodol iawn yn Boot's yng nghanol y dre. Ond ar Ebeneser bu'i bryd ac mae'i hen deulu ysbrydol yno yn gofidio am ei cholli.

Cydymdeimlwn â Mrs. Ann Innes a'i theulu ac â theulu'i chwaer ar golli'u tad yn sydyn ac yntau wedi symud i fyw atynt yn yr Eglwys Newydd. Mae colled ar ei ôl ar eu haelwydydd.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs. Beryl Hall a'i theulu ac â theulu Mrs. Myfanwy Coslett, ar golli'i mam. Bu hi'n dost iawn dros y Nadolig a dechrau'r flwyddyn daeth ei rhod i ben. Un o'r Rhos oedd Mrs. Mitchell ond bellach mae'i dwy ferch wedi bod yn hynod o weithgar mewn amryfal feysydd yng Nghaerdydd, yn ddawnus y tu hwnt. Estynnwn ein cydymdeimlad mawr iddyn nhw yn eu hiraeth.

CYMANFA GANU

Cynhelir Cymanfa Ganu Flynyddol Capel Bethlehem Gwaelod y Garth ar ddydd Gwener y Groglith am 10.30, 2 o'r gloch a 6 o'r gloch. Yr Arweinydd Gwâdd eleni fydd Alun Guy o Riwbeina. Croeso cynnes i bawb.

Mae ffrindiau y Parchedig Glyndwr Walker yn falch dros ben i'w weld yn gwella cystal ar ôl y driniaeth fawr a gafodd ar ei galon. Mae'n galondid inni gyd i weld ei ddewrder e a'i wraig.

NEWYDD GAEL EI BEDYDDIO

Llongyfarchiadau i Cynthia a Charles Cameron ar fedyddio'u merch fach, Lowri, a anwyd ar Ragfyr 28ain. Mae hi'n chwâer i James ac yn wyres fach newydd i Mr. a Mrs. Jeffreys, Heathwood Rd.

Dylid anfon yr holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Mai erbyn Ebrill 16, at Yr Ysgrifennydd, Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Waun, Caerdydd.

# Y CALENDR

EBRILL

Sadwrn 4: Eglwys Dewi Sant, 7.30 p.m.
"Llyna ddawn uwch llyn o ddŵr"
CYNGERDD CLASUROL GAN:
Elin Angharad Edwards
Delyth Shapey
Howard a Ruth Watt
Tom Ellis James
Yr elw at Gronfa'r Crwys

Sul 5: Theatr Sherman, 8.00 p.m
Cyngerdd gan Ysgol Rhydfelen.

Mercher 8: Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg a Gwent; Canolfan yr Urdd; 7.00 p.m.

Sul 12: Cymanfa Ganu Annibynwyr Caerdydd, Capel Minny Street.

23-25: Theatr y Sherman, Opera Pishyn Tair gan Gwmni Theatr yr Urdd, 8.00 p.m.
Noder: Dau docyn am bris un ar y 23ain.

Mercher, 29, am 8 o'r gloch, yn 11 Roodwood Ave., Parti Marks & Spencer. Elw at Ysgol Feithrin Y Tyllgoed.

MAI

Sadwrn 16: Neuadd yr Adran Gerdd, Corbett Rd., Cyngerdd gan Gôr Philharmonic Caerdydd, Arweinydd: Alun Guy

Sadwrn 16: Cynhadledd Undydd, Ebeneser, Yr Atgyfodiad, Arthur Pritchard, Tŷ Croes; Sulwyn Jones, Dowlais, 10.30 a.m.

MEHEFIN

27: Ffair Haf Glantaf

HYDREF: Cyngerdd yn Neuadd y Ddinas o dan nawdd Ysgol Feithrin Y Waun.

Llongyfarchiadau i Alun Davies, Prif ddisgybl Ysgol Uwchradd Cathays am ennill ysgoloriaeth i Goleg y Brifysgol. Aberystwyth. Bydd yn astudio'r Gymraeg. Mae brawd ganddo eisoes yn yr un Coleg yn astudio'r gyfraith. Yntau yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Cathays ac wedi astudio'r Gymraeg yn y Chweched dosbarth.

# Y MABINOGI'N SYMUD

Mae'n bleser gan MOVING BEING gyhoeddi y cynhelir digwyddiad theatrig arbennig iawn yng Nghastell Caerdydd adeg y Pasg 1981.

Llwyfannir cynhyrchiad yn seiliedig ar chwedlau cynharaf y traddodiad Cymraeg, 'Y MABINOGI' yn y parc ger Asgell Orllewinol y Castell, drwy ganiatad caredig Cyngor Dinas Caerdydd, am ddeuddeg perfformiad yn unig, sef o Ebrill 10fed - 21ain.

Darperir eisteddle wedi ei ddylunio'n arbennig a tho drosto ar gyfer y gynulleidfa i roi golwg glir iddynt ar y tirlun naturiol o'u cwmpas sydd, ynghyd a nodweddion pensaerniol y Castell ei hun, yn gefndir perffaith ar gyfer ailadrodd y chwedlau hynafol a hudolus hyn.

Dyddiwyd amryfal chwedlau'r Mabinogi ynghyd yn un cyfanwaith llenyddol yng nghanol yr lleg ganrif, yn ol pob tebyg. Dyddia y fersiwn lawysgrif lawn hynaf ohonynt sydd wedi goroesi o tua 1300, er bod darnau ohonynt mewn llawysgrif arall hŷn. Ond y mae'r chwedlau eu hunain, cynnyrch y traddodiad llafar dros y canrifoedd, yn llawer hŷn na hynny, yn gymysgedd o chwedloniaeth a llên gwerin, hud a lledrith. Y mae'r prif gymeriadau yn amlwg yn adleisiau o rai o dduwiau a duwiesau'r hen grefydd Geltaidd. Cydnabyddir fod y chwedlau nid yn unig yn un o binaclau'r dychymyg Cymreig ond hefyd ymhlith yr enghreifftiau gorau o lenyddiaeth Geltaidd y canol oesoedd.

Bydd y cynhyrchiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Bedair Cainc y Mabinogi, ond bydd hefyd yn cynnwys peth deunydd yn ymwneud a'r Chwedl Arthuraidd. Perfformir y cynhyrchiad yn Gymraeg a Saesneg a thrwy wneud hynny, gobeithir y gall hefyd, gyffwrdd a rhai agweddau mwy cyfoes ar fater iaith. Ceir trydedd iaith yma hefyd, sef "iaith y theatr" a ddatblygwyd gan Moving Being dros y tair blynedd ar ddeg ddiwethaf, sef cyfuniad unigryw o ddelweddau a cherddoriaeth sydd yn rhoi lle llawn cyn bwysiced i ddawnswyr ag i actorion ar y llwyfan. Ar gyfer yr achlysur arbennig hwn, yn groes i un o reolau euraid y theatr, bydd y Cwmni'n gweithio gyda phlant ac anifeiliaid hefyd.

Ein nod yw creu awyrgylch a hwyl digwyddiad traddodiadol yn yr awyr agored, megis ffair wledig neu sioe amaethyddol; achlysur i'r teulu gyda chyfle i brynu nwyddau cydnaws gan grefftwyr a chrefftwragedd Cymru, i brofi ymborth a diod draddodiadol, a hyd yn oed roi cynnig ar gampau a chwaraeon Celtaidd os oes arnoch awydd gwneud.


Y mae 'Y MABINOGI' yn gam pwysig i Moving Being. Er i'r Cwmni fod yn byw ac yn gweithio yng Nghymru er gwanwyn 1972, dyma'r tro cyntaf i ni ddewis thema neilltuol Gymreig i gynhyrchiad. Y mae'n rhan hefyd o ddathliadau degfed penblwydd CANOLFAN GELFYDDYDAU CHAPTER, achlysur yr ydym wrth ein bodd i gymryd rhan ynddo.

Cyfarwyddwr 'Y MABINOGI' yw Geoff Moore a sefydlodd Moving Being, ac y mae'r dylunwaith gan ddau o'i aelodau gwreiddiol Peter Mumford (setiau a goleuo) a Pamela Moore (gwisgoedd). Yn naturiol, ceisiasom gydweithrediad artistiaid a pherfformwyr o Gymry Cymraeg. Y mae Siân Edwards, awdur a chyfieithydd o Gaerdydd, wedi paratoi addasiad dwyieithog arbennig o'r chwedlau. Y mae Geraint Jarman, canwr roc Cymraeg mwyaf llwyddiannus Cymru, wedi cyfansoddi caneuon gwreiddiol a berfformir yn fyw ganddo ef a'i fand.

Bydd y cast helaeth yn cynnwys grwpiau o bob rhan o Gymru: Moving Being, Theatr Ieuenctid Clwyd, Footloose o Bowys, Theatr Ddawns Jumpers, Project Dawns Cymuned Caerdydd, Gweithdy Drama Neuadd Llanofer a Chanolfan Farchogaeth Caerdydd. Ceir cyfraniad ychwanegol gan Paupers Carnival, grwp perfformio ac ymchwil sydd hefyd yn gweithio o Chapter ac sydd eisoes yn adnabyddus am eu gwaith gyda llên gwerin a chwedloniaeth. Bydd deunydd cerddorol wedi ei recordio'n arbennig gan Robin Williamson (gynt o'r Incredible String Band, sydd bellach yn gweithio yn America). Cyflawnir agweddau technegol y perfformiadau yn y Castell gan y Light Works, gyda chymorth technegwyr Moving Being

Martin Lamb sydd yn gyfrifol am gyhoeddusrwydd 'Y Mabinogi'. Am unrhyw wybodaeth bellach, ac am y newyddion diweddaraf ar y digwyddiad unigryw hwn, ffoniwch Martin ar Gaerdydd 702005 neu Clare Richardson, Ysgrifenyddes Moving Being ar Gaerdydd 28741.

Mae tocynnau ar gyfer 'Y Mabinogi' ar gael yn awr o Ganolfan Gelfyddydau Chapter, Ffordd y Farchnad, Treganna, Caerdydd. Tel. 396061.



# TEULU'N SYMUD

Mae rhai o deuluoedd pentrefi Pentyrch, Creigiau a Gwaelod y Garth yn gobeithio trefnu gwyliau cyfnewid â theuluoedd o bentref Ville Fagnan, ger tref Ruffec yn Charente, sef département yn Ne-Orllewin Ffrainc.

Mrs. Delyth Richardson, sy'n athrawes yng Nghaerffili, sy'n ceisio gwneud y trefniadau. Eisoes cynhaliwyd dau gyfarfod i gael barn y teuluoedd sydd â diddordeb yn y cynllun a rhannwyd holiadur i gael y farn ar bapur.

Y tebygrwydd yw mai yn 1982 y gweithredir y cynllun gyntaf. Y syniad ar hyn o bryd yw y bydd teuluoedd o Gymru yn mynd am ryw bythefnos i Ville Fagnan adeg y Pasg 1982, ac y bydd y teuluoedd o Ffrainc yn dod i'r pentrefi yng Nghymru y mis Awst canlynol.

Mae posteri am y cynllun wedi eu gosod mewn mannau cyfleus yn y tri phentre, a gellir cael copi o'r holiadur ble bynnag y gwelir poster. Dylid dychwelyd y ffurflenni ar ôl eu llenwi i Mrs. Delyth Richardson, Pentyrch

# MAES CHWARAE MIS CHWEFROR




Mae'r flwyddyn hon bellach wedi colli ei mantell newydd yn syndod o sydyn, ac mae hyn yn dod i'r amlwg wrth i ni ystyried mewn difrif fod hyd yn oed y mis bach wedi ffarwelio â ni, ac wedi ei ddyrchafu i lefel uwch o ebargofiant. Ond, beth ydi'r cysylltiad rhwng hyn a chwarae peldroed meddech chi? – dim am a wn i, heblaw ei fod yn golygu ein bod fel Clwb ar drothwy diwedd y tymor unwaith yn rhagor. Rhaid wrth un ymdrech deg eto am y mis nesaf i gwblhau tymor 1980–81, ond cyn mentro i fyd y proffwyd ac edrych i'r dyfodol, beth am gilwg yn ôl ar berfformiadau Chwefror?

Y gwrthwynebwyr cyntaf oedd tîm St. Albans – tîm a edrychai yn fwy peryglus na'u pigiad yn eu dillad gwenyn streipiau melyn a du. Er mai disgôr oedd hi ar yr hanner, ni chawsant weddill y gêm yn fêl o bell ffordd. Roedd coffa da am y gêm honno yn gynharach yn y tymor fel hunlle dros bawb o'r tîm (pan gafwyd gêm gyfartal wedi i ni fod dair gôl ar y blaen ar un amser), ond melys fu'r amgylchiad y tro yma – buddugoliaeth o dair gôl i ddim. Sgoriwyd y goliau y tro hwn gan Eynon (wedi iddo ddeffro), a dwy gan Elwyn y meddyg bach, yr ail wedi iddo ddwyn y bel o droed y gwrthwynebwyr a'i chodi yn hamddenol dros ben y golgeidwad i gongl y rhwyd.

Nid oedd yr ail Sadwrn o'r mis yn un mor llewyrchus â'r arfer. Chwarae mewn gêm gwpan y tro hwn – ac mae'r record mewn cystadlaethau cwpan yn un sy'n siarad drosti ei hun. Nid ydym hyd yma wedi llwyddo i fynd ymhellach na'r ail rownd ericed, ac eleni eto diflannodd breuddwyd Dewi o ymddangos mewn gêm derfynol a derbyn tlws neu fedal i'w silff ben tân. Roedd y gwrthwynebwyr y tro hwn yn dîm o ddwy adran uwch ein pennau ni, ac fel na phetai hynny yn ddigon, roeddynt yn ail yn eu cynghrair, a dim ond wedi colli dwy gêm yn unig y tymor yma. Roedd y canlyniad o'r herwydd yn anochel – colli o saith gôl i un, ond rhaid cydnabod ymdrech wirioneddol pob aelod o'r tîm, a chafwyd gêm agored, galed, gyflym. Tair i ddim oedd y sgôr ar yr hanner, a chredir mai sgorio trwy'i gôl eu hunain a wnaeth cyn-ddisgyblion Trelai i roi i ni ein hunig sgôr. Yn anffodus, yn ystod y gêm, cafwyd anaf cas i Hefin a oedd hyd hynny yn chwarae'n awdurdodol ynghanol y cae, a gorfu iddo gael saith pwyth yn ei benglin – golyga hyn nad ydyw wedi bod ar gael i chwarae ers hynny, a mawr yw'n colled o'r herwydd. Da deall serch hynny ei fod ar wella, ac y bydd yn barod i wynebu'r gelyn yn hyderus y tymor nesaf.

Diwrnod y gêm rygbi ryngwladol oedd hi'r Sadwrn wedyn, a'r tyrfaoedd wrth eu miloedd yn tyrru i faes y gâd ym Mharc yr Arfau, a'r ornest rhwng Cymru a'r Gwyddyl. Unarddeg oer a rhynllyd oedd tîm Clwb Cymric y pnawn hwnnw yn troedio maes Pontcanna, tafliad carreg o'r maes arall yna, ninnau hefyd yn y crysau gwyrdd fel y Gwyddyl, ond â thafod y Ddraig yn ein herio mlaen. Y gwrthwynebwyr y tro hwn, Canton United – tîm heb gael fawr o lwc y tymor yma, ond serch hynny a roddodd gêm galed a thrafferthus i ni. Braf ydi cael cofnodi buddugoliaeth o un gôl i ddim, ond dim ond o drwch blewyn y daeth yn y diwedd – cic gosb yn cael ei rhwydo gan Rheon yn selio'r ornest. Roedd adain y gwynt yn cario peth o ddwndwr Parc yr Arfau i'n clustiau pob hyn a hyn, ac yn sicr bu'r pytiau o'r anthem genedlaethol a Chwm Rhondda yn foddion i'n cynnal, ac i gario'r dydd yn y diwedd. (Llongyfarchiadau gyda llaw i Gareth Huws ar chwarae ei gêm waethaf i'r Clwb ers tro byd, ac hefyd i Wyn a lwyddodd i sobri erbyn y chwiban olaf – deud dim, deud ydw i!)

Braf iawn fyddai gallu cau llygaid ac anghofio'n gyfan gwbl am y Sadwrn olaf o'r mis. Pam siarad felly tybed? Saith gôl i ddwy oedd y sgôr, a digon yw dweud mai dod yn ail a wnaethom y tro hwn yn erbyn gwrthwynebwyr oedd ar frig y gynghrair ac ar eu ffordd i'r Adran Gyntaf – sef tîm Rhymni. Teg nodi yma fod anafiadau wedi golygu nad oedd yn bosibl rhoi'r tîm cryfaf allan ar yr achlysur pwysig hwn, ond breuddwyd ffŵl fyddai credu na fuasai'r canlyniad yr un serch hynny, er y buasai'r sgôr yn siŵr o fod yn fwy clos. Tydi'r sgôr ddim yn adlewyrchiad o ddiffyg ymdrech – yn wir nid dyna oedd yn gyfrifol am y chwalfa. At yr ochr gadarnhaol, cafwyd llygedyn o obaith ar gyfer y dyfodol ym mherfformiad Gwyn bach, capten yr ail dîm – y fo sgoriodd y ddwy gôl gampus i ni, ac fe brofodd yn ddi-os ei fod yn fwy na pharod i lenwi'r safle yn y tîm cyntaf yn barhaol. Clodwiw hefyd oedd perfformiadau Toni ac Andrew, hwythau hefyd yn selogion yr ail dîm fel arfer.

Dim buddugoliaeth i'w nodi yn hanes yr ail dîm (Aelwyd yr Urdd) yn ystod Chwefror, ond mae'n bleser cofnodi ymrwymiad y bechgyn i gyd i fwynhau eu hunain pob pnawn Sadwrn boed law neu hindda, beth bynnag fo'r canlyniad.

Ar y cyfan felly, mis siomedig fu'r mis bach, ond gyda phedair gêm yn unig yn weddill tybed a allwn derfynu'r tymor mewn steil a sicrhau wyth pwynt ychwanegol. Tybed?

---

"CAP" ARALL I RYDFELEN

Dilynna Dylan Hughes ol traed rhai o chwaraewyr rygbi mwyaf disglair Rhydfelen pan chwaraeodd i Ysgolion Uwchradd Cymru yn erbyn Swydd Efrog ar y 10fed o Ionawr eleni. Dylan yw'r chweched "cap" i Rydfelen, yn dilyn Roger Davies (1969), Leighton May (dan 15eg), Leighton May (dan 19eg)(1975), Jimmy Lye (1978) a Ken Thompson (1980)

Maswr yw safle Dylan, ac ar ôl chwarae gem hynod o dda yn erbyn Swydd Efrog, pan enillodd Cymru o 27 pwynt i 9, mae wedi ei ddewis i chwarae yn erbyn yr Alban ar y Maes Cenedlaethol ar yr 28ain o Fawrth, 1981.

Daw Dylan o Gaerffili, ond ganwyd ei dad yn agos i Langrannog, Dyfed, a daw ei fam y Benllech, Sir Fôn.
Dymunwn bob lwc iddo yn erbyn yr Alban,

## COLOFN
### Shân Emlyn

Wrth feddwl am lenwi'r golofn hon o fis i fis, mi fyddai'n trio ngorau glas i beidio ag ildio i'r demtasiwn o fod yn rhy bersonol. Wedi'r cyfan haerllugrwydd ar fy rhan fyddai meddwl bod gan y darllenydd unrhyw ddiddordeb yn fy hynt am helynt i na'r teulu! Ond mae'n rhaid imi gyfaddef y buaswn yn llai na dynol pe na bawn yn cyfaddef fy mod yn sgwennu'r golofn hon ar ddiwedd wythnos gyffrous iawn yn ein hanes ni fel teulu.

Fel creadures sy'n cael pyliau o anobaith ynglyn a dyfodol yr iaith, rydwi wedi cael adnewyddiad ysbryd yr wythnos yma sydd wedi cryfhau fy ffydd i. Er yr holl ddadlau, a'r holl wahaniaeth barn sydd wedi bod ynglyn a'r Bedwaredd Sianel, a finnau hefyd wedi cael pyliau o simsanu - calonogol a chyffrous oedd darllen y llu llythyrau ddaeth yma. Synhwyraf bod yna frwdfrydedd ac ewyllys da tuag at lwyddiant y fenter oll bwysig yma - a hynny o du pob carfan o Gymdeithas, yn Gymry Cymraeg, di Gymraeg a Saeson. Ymhlith y pentwr llythyrau daeth tri phecyn o gynnyrch cystadleuwyr o'r Wladfa i gystadleuaeth ar eu cyfer ym Machynlleth.

Mi wn i mai rhyw wythnos afreal fis melaidd fu hon, ac y daw dyddiau o broblemau dyrys a phyliau o dywyllwch. Yn ŵyneb hynny, rwyf wedi ymollwng i gael blas ar gyffro'r wythnos. Bydd yn dda cofio amdani pan ddaw cyfnodau anodd.

Ddoe mi fum i yn beirniadu mewn Eisteddfod Gylch yr Urdd yng Nghwm Rhymni - a dyna i chi brofiad oedd hwnnw - profiad oedd yn cryfhau yr ymdeimlad yma o obaith, ac yn coroni'r wythnos. Pwy feddyliai y gellid cael neuadd fawr yn orlawn drwy'r dydd mewn ardal ddi-Gymraeg fel Ystrad Mynach. Gwefr oedd gwrando ar blant ag enwau digon Seisnig arnynt yn cystadlu yn Gymraeg. Plant o ysgolion Cymraeg fel Ifor Bach, Senghenydd, Caerffili, Bargoed a Rhymni, a dwy ysgol Saesneg Coed y Brain a'r Twyn wedi trafferthu i anfon cystadleuwyr i adran y Dysgwyr. Erbyn Eisteddfod Gylch y flwyddyn nesa mi fydd Ysgol Uwchradd Gymraeg Cwm Rhymni yn cymryd rhan. Dyna rywbeth arall i gynhesu'r galon. Diolch am athrawon brwd sy'n ymroi mewn talcen caled fel hyn i gyflwyno y fath gyfoeth i ieuenctid y dyfodol. Mae f'edmygedd yn fawr tuag at y rhieni di-Gymraeg sy'n barod i ymddiried addysg eu plant mewn iaith na ddeallant hwy, ac sy'n fodlon eistedd mewn eisteddfod drwy'r dydd.

Do, mi fu hon yn wythnos gyffrous a theimlaf, nid yn unig "Rhaid i Gymru fyw" ond mae hi'n MYND I FYW!.

# Y GYMDEITHAS FEDDYGOL



Annwyl Olygydd,

Rwy'n sgrifennu atoch i ofyn a oes gennych dîm cymorth cyntaf yn eich ardal, ac i bwyso arnoch i'w cael i gystadlu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth.

Y llynedd ni chafwyd un tîm yn cystadlu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac y mae aelodau'r Gymdeithas hon am apelio'n daer at unrhyw dîm a allai newid y sefyllfa hon trwy gystadlu gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Yr Ysgrifennydd.

---

Pob dymuniad da i Mr. Iwan Humphreys ar ddechrau ar ei waith fel Cyfreithiwr ym Manceinion. Ryn ni'n gwybod pan ddaw'r cyfle fe fydd yn ôl yn ei gynefin gyda ni ar ôl gorffen ei gyfnod ym Manceinion.

Mae'i fam, Mrs. Annie Humphreys wedi bod am ychydig yn yr ysbyty yn Llandochau. Da iawn clywed ei bod yn gwella erbyn hyn.


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**
TRWYDDED PRESWYL


## PYTIAU

DRYSWCH WARD GYFAN

Ers y rhifyn diwethaf, ar Fawrth y 4ydd, ar ddydd dathlu Gŵyl Dewi yn ei gapel a dweud y gwir, fe gipiwyd Gweinidog Heol y Crwys i mewn i Ysbyty'r Mynydd Bychan. Mae wedi dychwelyd i'r pwlpud erbyn hyn a chael croeso brwd gan ei aelodau yno trwy Sul, Mawrth 22ain.

Cafodd Mr. Williams gyfnod poenus ond yr oedd un agwedd braidd yn ddoniol ar ei ymweliad â'r ysbyty. Dryswyd y Nyrsus gan ymweliadau llu o ymgynghorwyr meddygol amlwg - anodd oedd deall beth oedd y clefyd arweiniodd at ymweliadau oddi wrth feddygon mewn cymaint o wahanol feysydd ond trodd y dryswch yn anghrediniaeth pur pan ddaeth Mr. Geraint Williams, y geinicolegydd enwog, i ymweld ag e. Esboniad syml y dryswch - praidd yn dod i ymweld â'u bugail. Roedd Mr. Williams yn methu gwisgo'r goler gron gyda'i byjamas!

Llongyfarchiadau i Dr. Jane Jones a'r Western Mail ar ysgogi Cronfa i gael Uned Laser i Gaerdydd. Campus fu'r ymateb a da gwybod bod un o fanteision gwyddonol gwerthfawr ar fin bod ar gael i Brifddinas Cymru.

Diolch i ddycnwch a brwdfrydedd Mrs. Avril Lewis a Mrs. Non Henry Jones, fe wnaeth Siop Ail Law aelodau Cyncoed o gapel Heol y Crwys elw o £1200 i Gronfa Dyfodol y Crwys. Dymuna Avril a Non ddiolch i bawb a'u cefnogodd.

Da gennym glywed fod Mr. William Davies, Fairwood Rd. yn gwella'n dda ar ôl ei salwch cas. Edrychwn ymlaen at weld ei wên lawen unwaith eto.

CROESO GARTREF

Mae baban bach newydd Mrs. Marged Evans nôl yn ei chartre gydag Ifan a Lisa. Mae Alys yn ennill pwysau'n ddyddiol a phawb yn ymfalchio.


---


Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# PISHYN LLOYD GEORGE

Tybed faint o ddarllenwyr Y Dinesydd sy'n prynu'r 'Sun'? Beth bynnag eich barn am gynnwys y papur hwnnw'n gyff--redinol rhaid ei ganmol am unwaith am roi tipyn o sylw'n ddiweddar i un o'n gennod ni - ac nid ar dudalen tri chwaith! Welais i ddim o'r erthygl ond clywais fod gohebydd wedi bod yn sgwrsio hefo Lisabeth Miles ar achlysur cychwyn darlledu'r ddrama gyfres "The Life and Times of David Lloyd George" ar BBC 2. Prif ddiddordeb y papur Saesneg oedd y ffaith fod Lisabeth wedi colli'r parti i lansio'r gyfres gan ei bod yn cymryd rhan mewn drama lawer mwy cyffrous, sef geni ei merch fach Anna, sydd erbyn hyn yn fis oed.

Bu disgwyl mawr am y ddrama gan Elaine Morgan ac ar y cyfan mae'r derbyniad wedi bod yn ffafriol iawn. Efallai mai cymysg oedd barn y papurau i ddechrau, ond 'dwi'n siwr fod mwyafrif helaeth y gwylwyr yn mwynhau'r gyfres yn fawr ac yn edrych ymlaen i'w gweld yn datblygu. Mae'n rhoi pleser arbennig i ni i weld wynebau cyfarwydd yn cymryd rhan mewn cyfres bwysig fel hon a gweld y geiriau BBC Cymru/Wales yn cloi y darllediad, a'r hyn sy'n rhoi'r boddhad mwyaf yw perfformiadau Philip Madoc a Lisabeth Miles fel David a Margaret Lloyd George.



Ar werth yn eich siop bapur — 30c

Mae Lisabeth wedi bod â chysylltiad â Chaerdydd bell-ach ers dros bymtheg mlynedd. Bu'n astudio yn y Coleg Gerdd a Drama ac wedi hynny mae llawer o'i gwaith teledu a llwyfan wedi ei wneud yma. Fel y gŵyr pawb, mae wedi actio mewn sawl drama, a theithio'n helaeth gyda Chwmni Theatr Cymru. Amheuthun oedd ei gweld unwaith eto yn "Merch Gwern Hywel" ar ddydd Gwyl Ddewi. Roedd hwn yn berfformiad gwefreiddiol ac yn un o'r rhannau a roddodd fwyaf o foddhad i Lisabeth ei hun.

Roedd chwarae rhan Margaret Lloyd George yn dipyn o newid i Lisabeth. Fel i aml un arall o'r cwmni, peth dieithr iawn oedd actio yn Saesneg. O'r cychwyn cyntaf penderfynodd aros yng Nghymru a chymryd ei siawns ym myd ansicr y llwyfan, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Er iddi deimlo ar adegau y buasai bywyd wedi bod yn haws pe bai wedi dewis mynd i gyfeiriad arall, glynodd at ei bwriad ac yn sicr mae ei chyfraniad wedi cyfoethogi byd y ddrama yng Nghymru.

Cymerodd "Lloyd George" naw mis i'w pharatoi - o Fehefin '79 hyd Chwefror '80 ac mae'n amlwg fod y cyfnod wedi bod yn un tu hwnt o hapus. Roedd yn ddiddorol deall mai Cymraeg oedd iaith yr ymarferion. Roedd hyn yn brofiad newydd sbon i'r Saeson ar y set. Ond sut y gallai Lisabeth siarad Saesneg hefo rhywun fel Elen Roger Jones ynte!



Yr oedd tasg Philip Madoc ar un ystyr yn fwy anodd nag un Lisabeth gan fod gennym i gyd ein syniadau pendant am gymer-iad y gŵr mawr ei hun ond cymeriad dieithr yn y cefndir oedd ei briod. Bu Lisabeth yn sgwrsio â Lady Olwen Carey Evans am ei mam, ac o dipyn i beth daeth ei chymeriad i'r amlwg. Roedd Margaret yn wraig arbennig iawn, yn alluog a gweithgar, o egwyddorion cadarn ac o bersonoliaeth gref. Byddai Lloyd George yn gofyn ei barn ar sawl mater ac yn arbennig fe barchai ei barn am bobl. Fe wyddai i'r dim am ffaeleddau ei gŵr, ond chlywodd ei phlant hi erioed yn lladd arno. Er gwaethaf popeth, yr oeddynt yn deulu clos ac yr oedd teyrngarwch a chariad mawr yn amlwg yn bod rhyngddynt. Roedd hi hefyd yn hoffi cael hwyl hefo'r teulu ac aml y clywid hi'n chwerthin yn iach. Ei theulu, ei chartref a'i gardd oedd ei diddordebau pennaf, er iddi wneud llawer i helpu ei gŵr adeg etholiadau ag ati. Doedd gwisgoedd a ffasiwn yn golygu fawr iddi, a byddai'n gas ganddi 'fuss'. Dywedodd Lady Olwen fod rhaid iddynt ambell dro guddio rhyw hen ddilledyn neu het ffelt gyfforddus rhag i'w mam ei wisgo i ryw achlysur crand!

Ar ol "byw" hefo Lloyd George cyhyd beth tybed yw barn Lisabeth amdano? Wel, cyfaddefodd iddi gychwyn gyda pheth rhagfarn yn ei erbyn, wrth gofio fel y bu iddo ein siomi fel cenedl a'r ffaith iddo gael ei ddenu i'r byd o bwer ac awdurdod Seisnig. Ond, daeth i sylweddoli ei fod wedi cyflawni pethau anhygoel. Mae'n wir iddo newid, ond rhaid cyfaddef iddo fod yn "dipyn o foi".

Llongyfarchiadau'r Dinesydd i Lisabeth a phob dymuniad da.

Buddug Lloyd

---

O'r dudalen flaen :

Lisa Grug, merch Geraint Jarman a Heather Jones, sy'n cymryd rhan Lady Megan yn ferch fach mor swynol yn y gyfres deledu "The Life and Times of David Lloyd George". Ei thadcu hi yw Trysorydd 'Y Dinesydd'. Mae Lisa erbyn hyn yn ail-genhedlaeth wedi'i magu yn y ddinas.

# YR OPERA PISHYN TAIR

Er Tachwedd 1980, mae 70 o aelodau o gast Cwmni Theatr Ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd wedi bod wrthi'n paratoi ar gyfer eu cynhyrchiad o'r 'Opera Pishyn Tair' - sef cyfieithiad Emyr Edwards o 'The Threepenny Opera' gan Bertolt Brecht. Mae'r ddrama hon yn garreg filltir yn hanes y Theatr Ewropeaidd, ac yn waith enwog drwy'r byd erbyn hyn. Perfformiwyd hi dros y byd i gyd yn gyson oddiar y tri degau. Dyma'r tro cyntaf iddi gael ei llwyfannu yn yr iaith Gymraeg, ac fe gewch y cyfle i'w gweld yn

Theatr y Sherman ar 23,24,25 Ebrill.

Mae Cwmni Theatr yr Urdd wedi dilyn polisi comisiwn i awduron newydd ers tro bellach, ac wedi cyflwyno nifer o ddramau gyda cherddoriaeth, ac operau roc. Eleni yr oedd y cwmni'n teimlo y dylid ymhel â rhywbeth sylweddol byd enwog, gan gofio bod nifer fawr o dalentau actio, canu a dawnsio wedi eu meithrin ers nifer o flynyddoedd trwy'r cynhyrchiadau.

Mae'r OPERA PISHYN TAIR yn cyflwyno stori Mac y Gyllell a'i helyntion ym myd Soho, Llundain yn nauddegau'r ganrif hon. Mae Brecht wedi lleoli ei ddrama yno er mwyn dychanu imperialaeth, cyfalafiaeth a hefyd draddodiad yr opera melodramatig. Mae Mac y Gyllell yn hoff o'r merched ac yn priodi mwy nag un; dyna'i ddiwedd; daw'r heddlu i'w garcharu, a'i ddwyn i'r grocbren; ond y mae'r ddrama'n gorffen yn ddychanllyd o hapus.



# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Y mis diwethaf buom yn sôn am raglen Talwrn y Beirdd a recordiwyd yn Ysgol Glan Taf dro yn ôl. Beth am gael rhagor o gynnyrch yr ymryson y tro hwn?

Gofynnwyd am bennill yn arddull yr hen benillion yn cynnwys y llinell 'Ni all geiriau fyth ragori' a gwnaeth Urien Wiliam o dîm Glannau Taf gynnig teg fel hyn:

Ni all geiriau fyth ragori
Ar y gwir amdanat, Beti;
Edrych yn y drych a gweli
Pam, fy nghariad, 'rwyf yn ffoli.

Ysywaeth, sleifiodd un o feirdd Bro Wysg i fyny llawes y beirniad gyda'r pennill hwn:

Ni all geiriau fyth ragori
Ar yr hyn a glywn yn awr;
Beirdd y Talwrn oll o ddifri
Yn tacluso'r tasgau mawr,
Ac mae Gerallt yn llawn hiwmor,
Tenau'i glust a llygad craff.
Gwell im' beidio dwedyd rhagor,
Tewi raid er chwarae'n saff.

Ond dywedodd ddigon on'do? Urien hefyd a luniodd y ddau driban yn ymwneud â phrynu a gwerthu:

Y dyn a ŵyr ei ddiben
A bryn yn ddigon hirben,
Ond yn y ffair fe bryn yn ffôl
Wrth fynd ar ôl y fargen.

Ac wedi ofer brynu
A sydyn edifaru,
Y sothach nad yw wrth ei fodd
Mor anodd fydd ei werthu.

Alun Ogwen ac Arwyn Evans o Fro Wysg a ddaeth i'r Talwrn gyda'u cwpledi epigramatig yn ymwneud â rhannu. Dyma 'nhw:

O'r un dorth rennir yn deg,
Yn hynod bydd ychwaneg. (A.O.)

Hwn na fedd ond croen ei fol,
I hwn hawdd rhannu'i waddol. (A.E.)

A beth am yr Hir a Thoddeidiau hyn i'r Crefftwr?

O'n daear inni y daw i'r wyneb
O gôl ei hasennau rhyw glysineb;
O hyd o'r dwst y codir rhyw dysteb
I gywreinwaith hen oes a'i gwarineb.
Boed of a fynno gofeb! - yn y gro
Iddo o'i waldio y bydd anfawroldeb.

(Tomos Richards, Bro Wysg)

Uwch anobaith ein byw trychinebus
a thrythyll lwydwyll ein byd trallodus
dal i dywynnu wna dwylo dawnus
Un a goledd y gred ogoneddus
nad ynfyd yw gwneud enfys, na'i diwyd
ail-greu o hyd yn gabol gariadus.

(Glannau Taf) (I DUD. 9)

# UN NOS OLAU LEUAD



Y NEUADD GOFFA A'R SHERMAN YN LLAWN AR GYFER Y PERFFORMIAD O 'UN NOS OLAU LEUAD'.

O'r diwedd dyma berfformiad sy'n dangos gallu a dawn Cwmni Theatr Cymru a nerth cynhenid y theatr Gymraeg. Sôn ydw i wrth gwrs am 'Un Nos Ola Leuad' yn y Sherman, nos Sul, Mawrth 22ain. Nid drama fel y cyfryw oedd, ond addasiad o nofel a sgrifennwyd gan Caradog Pritchard, brodor o Fethesda, ond cydnabyddir bod elfen o hunangofiant yn y nofel.

Hanes bachgen yn tyfu i fyny yng nghymdeithas y chwareli a gawn ni, ei berthynas â'i fam, â'i ffrindiau, a'i sylweddoliad o wirioneddau bywyd. Ond peidiwch â meddwl mai noson sych, ddifrifol a gawsom. Cafwyd llawer o ddigrifwch yn hanes cymeriadau yr ardal, pobol fel Wil Lôn Bost, Ron Colar Starch, John Beehive ac hefyd hogia'r Sowth oedd yn siarad mor ddoniol yn nhyb hogia'r Gogledd. Mae'n dipyn o gamp i ddyn canol oed actio hogyn ysgol ond llwyddodd John Ogwen yn wych ac yn wir y ddau arall oedd yn actio'i ffrindiau. Maureen Rhys yw'r fam sy'n ymladd yn ddewr yn erbyn tlodi ac unigrwydd ar ôl marwolaeth ei gŵr yn y chwarel.

Cawn olygfa wych pan fo'i mab yn holi'n ddiniwed am allu ei dad i focsio ac mae Maureen Rhys yn trosglwyddo dyfnder ei dioddefaint yn yr ateb syml 'Paid a gofyn hen gwestiynau gwirion fel na'. Yn y diwedd mae hi'n gorfod mynd i ysbyty meddwl Dinbych. Dwi'n siŵr fod mwy nag un llygad gwlyb pan yw'n disgrifio cael dillad ei fam gan y nyrs ac yn synnu sut ar y ddaear oedd ei holl ddillad yn mynd i becyn mor fach.

Mae na 'chydig o feirniadaeth - doedd pawb ddim yn actio cystal ag y dylasent a gwell fasai i'r ddwy ddynes fod wedi gwisgo rhywbeth gwell na'r ffrogiau hirion llwyd a oedd yn wir yn fwy addas i ddrama Roegaidd.

Cwynion bach yw'r rhain fodd bynnag. Cafwyd noson wych fel y dangosodd y gymeradwyaeth ar y diwedd ac mae'n amlwg fod talentau newydd ar gael. Rhaid crybwyll Gwyn Vaughan, actor addawol yn ogystal â chanwr bendigedig.

Gobeithio y cawn fwy o ddramâu fel hon sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant Cymru ac ychydig llai o gyfieithiadau fel 'Dipos Frenin' sy'n golygu fawr ddim i neb erbyn hyn.




PHILLIP MADOC

DAN DAMON

Arglwydd Raglaw De Morgannwg

# NODION O DRELAI

YSGOL SUL GYMRAEG

Ym mis Mawrth eleni roedd bywyd Cymreig yr ardal wedi cymryd cam ymlaen. Ar ddydd Sul, Mawrth 7fed, fe gynhaliwyd y dosbarth Ysgol Sul Cymraeg cyntaf yn Eglwys y Plwyf, - Eglwys yr Atgyfodiad, Grand Avenue, am 11.30 a.m. Saesneg yw iaith yr eglwys, ond ar wahoddiad y Ficer, y Parchedig Robert W. Morgan, trefnwyd cynnal dosbarth i Gymry ifanc yr ardal o fis Mawrth ymlaen. Mae'r Cymry yn ymuno â'r disgyblion di-Gymraeg am y rhan gyntaf o'r ysgol, ond wedyn ar ôl hynny, Cymraeg yw iaith y dosbarth. Disgwylid i ddechrau rhyw chwech o ddisgyblion, ond er mawr syndod, cafwyd deunaw y Sul cyntaf, ac oddi ar hynny, mae'r rhif wedi cynyddu i ddau ddeg pump ar y cofrestr. Eisoes fe ffurfiwyd cerddorfa fach a chôr o leisiau brwdfrydig yn canu "Dyma Feibl annwyl Iesu". Mae'r dosbarth dan ofal gwraig y ficer, Mrs. Elaine Morgan, ond mae ganddi nifer o gynorthwywyr, Miss Jill Harwood, a dau ddisgybl o Ysgol Gymraeg Glantaf, Miss Alexandra Yates a Miss Eluned Morgan. Croeso i unrhyw blentyn Cymraeg (neu ddysgwr) o fewn cyrraedd i ymuno â'r dosbarth Cymraeg yn yr eglwys am 11.30, unrhyw fore Sul.

Llongyfarchiadau i ddosbarth y Dysgwyr, y Ganolfan Hamdden Trelai, ar ennill cystadleuaeth Ymddiriedolaeth Iaith Nant Gwytheyrn adeg y Nadolig. Cyflwynwyd ganddynt lyfryn deniadol dros ben, ynghyd â lluniau bach hyfryd ar bob tudalen a dynnwyd gan ddau o arlunwyr talentog y dosbarth - Mrs. Elvira Pezzack a Mr. Bill Ashby. Roedd y gystadleuaeth yn agored i holl ddysgwyr Cymru. Derbyniasant rodd o ddeg punt, a chyda'r wobr paratoisant barti Nadolig yn y Ganolfan. Gwahoddwyd nifer o aelodau Cangen Caerdydd o Ferched y Wawr, ac amryw o ffrindiau Cymraeg, yn ogystal â rhai o'r disgyblion o Ysgol Gymraeg Glantaf, a chafwyd parti hyfryd, gwir Gymreig ei naws a'i ysbryd.


# GEORGE YN RHOI'R FFIDIL YN Y TO

Mae'r tri am ymddeol: Callaghan, Wilson a George. Heb amheuaeth daeth diwedd cyfnod ar wleidyddiaeth Lloegr ....ac ar wleidyddiaeth Cymru hefyd?

Bu George Thomas yn un o aelodau seneddol Caerdydd er 1945; wedi'i eni yn Nhonypandy a derbyn ei addysg yno ac yng Ngholeg y Brifysgol Southampton, bu'n athro yn y Rhath. Draw yn Westminster, bu'n ei dro'n is-weinidog yn y Swyddfeydd Cartref, Cymanwlad a Chymreig cyn gorffen ei yrfa weinidogaethol yn Ysgrifennydd dros Gymru ac yn aelod, ufudd y dywedir, o gabinet Harold Wilson.

Adeg gythryblus oedd hon yng Nghymru, amser carcharu, ffrwydro a'r Prins. Roedd George Thomas yn cynrychioli meddylfryd rhai o drigolion Cymru mae'n siŵr ond nid y sosialwyr tanbaid a'i gyrrodd gyntaf i'r senedd ym 1945. Derbyniodd wawd a'r llys enw "Mother's Pride" gan ei wrthwynebwyr.

Credai fod caniatau Dug Norfolk ei alw'n George yn arwyddo chwildroad a bod ef yn cael galw Marmaduke ar yntau yn ei dro yn fuddugoliaeth gyflawn i'r werin. Nodedig yw mai "George" y bu erioed ar lafar yn y ddinas, bron yn arwr yr hil megis "Our Gracie" yn Rochdale.



Ac yntau'n is-lefarydd, daeth yn Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn 1976 heb wrthwynebiad. Nid oes amheuaeth iddo lwyddo yn y swydd hon tu hwnt i bob disgwyl. Mae'i gyfuniad o awdurdod a ffraethineb yn gwneud y tro i'r dim yno. Er na ellid ei alw'n rhwysgfawr o gwbl, nid oes amau nad yw bod "yng nghanol ei holl fynd a dod" yn apelio'n arw ato.

Bu'n Fethodist gweithgar a phregethwr lleyg yn ymarfer dirwest ac ni all neb lai nag edmygu'r parch a gafodd ei fam ganddo yn ei henaint.

Yn y man fe ddaw etholiad. A fydd etholwyr y ddinas yn gweld, fel Emlyn Hooson, ryw werth mewn ceisio cael radicalwyr Cymru ynghyd mewn plaid Seisnig newydd unwaith eto? Neu, ar ôl dydd mawr y Rhyddfrydwyr a machlud haul plaid Lafur Callaghan a Wilson a George Thomas gynt a fydd prydleswyr tai Treganna a Glan yr Afon yn chwilio am rywbeth amgenach na gwahoddiad i ymweld â chrandrwydd tŷ y Llefarydd yn Llundain?

Ar ôl cwymp y llywodraeth Lafur yn 1970, daliodd i ymosod yn ffyrnig ar y cenedlaetholwyr a dywedir i'w erthyglau yn y Daily Post effeithio'n drwm ar ganlyniadau'r etholiad seneddol yng Ngwynedd yn 1974.

---

(o dud 7)

Gorffennwyd yr Ymryson drwy ddarllen englynion cywaith y ddau dîm.

Yr Ysguthan

Hotel yr aderyn tila, ei far  
A'i fwrdd ni fynycha;  
I'r ysgaw i giniawa  
Yr â hwn ar hwyr o ha'. (Bro Wysg)

Yr Ysguthan

Hidliaid o rawn fy ydlan yn dy lwnc  
delincwent yn 'stwyrian  
yw'r achos am dy rochian,  
am wrgwl gwrgwl dy gân. (Glannau Taf)

A phwy a enillodd yr ornest? Wel, pwy feddyliech chwi?

---

Cofiwch y cyfeiriad, chwi feirdd - 31 Heol Don, Yr Eglwys Newydd. Gyrrwch eich cerddi ataf, da chwi.

# ORDER ORDER

Mae Meredydd Evans, Tredelerch, wrthi'n brysur y dyddiau hyn yn glanhau'r fflat a pharatoi prydau bwyd, heb son am glytio ambell grys a gwnio botymau'n achlysurol. Yn y cyfamser aeth Phyllis i ymweld a'i rhieni yng Ngogledd Carolina gan obeithio cael tynerach Gwanwyn yno nag a gawn i yn y wlad fach hon. Bydd oddi cartref am tua chwe wythnos. Deallwn fod y gŵr yn isel-fwmian cerdd Y Bachgen Main.

# 'STEDDFOD YSGOL GLANTAF

Os yw eisteddfodau yn rhan annatod o'n treftadaeth fel cenedl, yn ôl tystiolaeth Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Glantaf eleni mae dyfodol y "pethe" mewn dwylo diogel.

Heb os nac oni bai dyma un o'r pinaclau mwyaf yn hanes byr yr ysgol. Cafwyd cystadlu brwd rhwng y llysoedd, sef Dewi, Dyfrig, Teilo ac Illtud a'r elfen gystadleuol yn denu gweithgarwch mawr ar draws y cwrs addysg yn gyfan, oherwydd nid rhywbeth i'r perfformiwr llwyfan yn unig mo'r eisteddfod hon ond cyfle i bob plentyn i sianeli ei dalent i'r amrywiol bynciau, er mwyn ennill pwyntiau gwaith cartref i'w lys.

Gwelwyd ffrwyth y gweithgarwch yma mewn arddangosfa a gynhaliwyd ar ôl yr eisteddfod a mawr oedd edmygedd y llu o rieni o safon a maint y cynnyrch, boed e'n waith ysgrifenedig neu yn waith llaw. Roedd cywreinrwydd a gwreiddioldeb y gwaith celf a chrefft yn arbennig o ganmoladwy, ac yn sicr fe welwn rai o'r cystadleuwyr hyn yn ymgiprys am y prif wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nyffryn Teifi.

Ond beth am ganolbwynt yr Eisteddfod, sef cystadleuthau'r llwyfan? A chefnogwyr lliwgar a selog y gwahanol lysoedd yn llenwi'r Neuadd Fawr roedd yr awyrgylch gyffrous yn blatfform arbennig i'r diwrnod a hanner o gystadlu. Bron y gellid galw'r eisteddfod yn "Eisteddfod codi'r to", cymaint oedd cymeradwyaeth gwresog a phleidiol y gwahanol lysoedd ar ôl dyfarniad y beirniaid. Ac nid gorchwyl hawdd oedd gan y beirniaid i benderfynu mewn llawer i gystadleuaeth lafar a cherddorol lle roedd y safon mor uchel.

Fel yn y Genedlaethol ei hun uchafbwynt Eisteddfod Glantaf oedd cadeirio'r bardd buddugol. Y gamp oedd cyflwyno ffolio o waith yn cynnwys cerdd, erthygl ffeithiol a stori fer a da oedd clywed gan y beirniad, sef Marion Eames, bod safon chwech ymgeisydd yn gwbl deilwng o'r wobr ac yn sicr roedd ei beirniadaeth dreiddgar ac adeiladol yn hwb i'r llenorion ifanc yn y gystadleuaeth hon. Y bardd buddugol oedd Lowri Stephens am yr ail dro mewn tair blynedd a chlodforwyd hi mewn seremoni syml ac urddasol dan arweiniad y Dirprwy Brifathro, Mr. Bryan James. Braf oedd gweld cadair wag Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978 yn cael ei defnyddio i wir bwrpas unwaith eto.

Daeth yr eisteddfod i ben gyda chystadleuaeth Corau'r Llysoedd a'u datganiadau clodfawr o dan law eu harweinyddion ifanc yn glo effeithiol i holl ferw'r cystadlu.

Pa lys oedd yn fuddugol? O gofio mai dathlu gŵyl ein nawdd sant oedd yr Eisteddfod, priodol efallai, mai Llys Dewi a orfu y tro yma. Ond mewn eisteddfod fel hon does dim colli ac ennill, oherwydd mae pob cystadleuydd yn elwa o'r profiad o gyfrannu i'w lys.

Y Beirniaid:

Cystadleuaeth y Gadair – Marion Eames
Cerdd – Arfon Jones
– Tom Ellis James
Adrodd – Pat Griffiths
Dawnsio Gwerin – Simon Hayes
Celf a Chrefft – Morwen Eynon
Arlunio/Crochenwaith – Wyn Davies
Coginio – Margaret Rees
Cerddorfa – Llinos Swain
Almaeneg – Leigh Jones

J.M.R.

Canlyniadau:

Cystadlaethau'r llwyfan:

Côr: Llys Dewi
Ymarfer Corff, Bechgyn: Dyfrig
Merched: Dewi

Y Gadair: Lowri Stephens
Dawnsio Gwerin: Llys Illtud
Cerddorfa: Llys Dyfrig
Adroddiad Almaeneg: Elenid Owen
Unawd Trombôn: Marc Edwards
Unawd utgorn: Sally Jones
Adroddiad: David Butcher
Unawd piano: Elenid Owen
Unawd ffliwt: Gareth Griffiths
Adroddiad Saesneg: Sarah Lloyd
Unawd Bechgyn: Jeremy Williams
Unawd soddgrwth: Huw Bunford
Prif adroddiad: Marged Pryce
Unawd Alaw Werin: Nia Rees
Prif Adroddiad Saesneg: Roland Powell
Unawd ffidil: Gareth Whelan
Siarad Cyhoeddus: Eleri Morgan
Unawd clarinet: Ffion Jenkins
Unawd telyn: Catrin Jones
Cyd-adrodd: Merched y ddinas
Unawd merched: Debbie Ford
Cân Ffrangeg: Eluned Morgan
Unawd obo: Llinos Smith
Deuawd: Eluned Morgan ac Anna Gravelle
Arweinydd Côr/Cerddorfa: Ruth Davies
Tarian "Latham's" am yr ymdrech unigol orau: Roland Powell (78 pwynt)

Marciau terfynol y Llysoedd:
Cyntaf: DEWI
Ail: DYFRIG
Trydydd: ILLTUD
Pedwerydd: TEILO

Y Gerdd Fuddugol:

COLLI AC ENNILL

Tri chant a aeth i Gatraeth
O Fanaw Gododdin 'rôl blwyddyn o wledd,
Talwyd yn chwerw am eu dewrder hwy, –
Eu bywyd fu'r pris am eu medd.

Cannoedd a frwydrodd drwy'r oesoedd gynt,
Llywelyn, eu harwr yn erbyn y Sais,
Ond collwyd y dydd ar faes y gad
Ger Cilmeri deg, drwy frad a thrwy drais.

Miloedd a bleidleisiodd ym mil naw saith naw
Am senedd i Gymru yn ninas Caerdydd,
Ond siom ac anobaith unwaith yn fwy
Ddaeth i'r genedl a fynnai weld Cymru yn rhydd.

Ond mae'r genedl fechan erbyn hyn
Wedi troi pob trychineb i'w budd,
Cafwyd Awdl Aneirin a Beibl Cymraeg,
A fydd eto orfoledd i'r Cymry a Fydd?

Lowri Stephens.

WYRESAU J.D.R.T.

Ar y 17eg o fis Hydref, 1980, ganwyd Emily Christine Brooks, merch i Lynne a Derek Brooks. Yna ar y 23ain o fis Rhagfyr, 1980, ganwyd Rhiannon Siân Taffinder, merch i Gaenor ac Adrian Taffinder. Wyresau yw'r ddwy i Dr. a Mrs. J.D.R. Thomas, Egremont Rd.

Mae Emily yn byw yn Chichester lle mae ei thad yn athro ymarfer corff yn yr ysgol gyfun i fechgyn. Athrawes yw Lynne hefyd wrth ei galwedigaeth ond ar hyn o bryd gofalu am Emily yw ei swydd.

Yn Rossett, ger Wrecsam, y mae Rhiannon yn byw. Mae ei thad erbyn hyn yn feddyg teulu yn yr ardal, ond yn y cartref y mae Gaenor, meddyg arall, yn gweithio ar hyn o bryd hefyd.

Mae Rhiannon ac Emily (a'u rhieni wrth gwrs) yn edrych ymlaen at weld ei gilydd ddechrau mis Ebrill pan fyddant yng Nghaerdydd yn ystod cyfarfodydd dathlu agor Capel y Tabernacl gyntaf ym 1821.

Llongyfarchiadau i Dafydd Wigley, A.S. Arfon am fynnu bod ei fesur i'r anabl yn cael gwrandawiad teilwng.

---

DYMUNA 'Y DINESYDD' ANFON CYFARCHION I MR. SAUNDERS LEWIS GAN OBEITHIO EI FOD YN GWELLA WEDI GWAELEDD HIR A GARW.

---

Diolch o galon i Chwiorydd y Prebyteriaid am ychwanegu'n bellach at eu cyfraniad y llynedd at Fudiad HYDER. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio'n syth i'r plant sydd yn yr Uned yn Bryntaf ar hyn o bryd.

---

Prifysgol Cymru

DYSGU CYMRAEG I OEDOLION

Cwrs Hyfforddi Athrawon

7.5.81 - 2.7.81

(Sesiynau wythnosol $1\frac{1}{2}$ awr)

Manylion gan:

Y Swyddog Ymchwil a Datblygu,
6, Gwenith Street,
Cathays,
Caerdydd. CF2 4YD
Tel: 390980

CROESO MAWR

Croeso mawr i'r Parch. H.R. Davies, gynt o Salem, Aberystwyth, sy newydd ymddeol a dod i fyw i Gaerdydd lle mae'i fab, Ceri Davies, wedi ymsefydlu ers amser fel darlithydd yn y Brifysgol. Gobeithiwn wir y bydd e a'i wraig yn ymgartrefu'n gyflym iawn yn ein plith. Ryn ni'n freintiedig iawn yn cael croesawu un o bregethwyr mawr yr Hen Gorff.


Mae'n symud lawr i Gaerdydd ar gyfnod pan mae ŵyr iddo newydd ei eni, brawd bach i Stephan, mab Ceri a Michelle. Llongyfarchiadau i'r holl deulu.

---

Eleni, bydd dwy Gymraes y mae eu rhieni wedi symud i fyw yn Hong Kong yn eistedd eu harholiadau Safon O, ac ymhlith eu pynciau y byddent yn eu heistedd, fe fydd y Gymraeg.

Bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr wybod mai eu harholwr yn yr arholiad llafar Cymraeg fydd Tanwen James, merch Mr. a Mrs. Emrys Jarman.


Da gan Philip Morgan a'i Fab Cyf., allu dweud bod gwin bord 'Calon Lân' nawr ar eu rhestr. Cyfuniad Ewropëaidd yw hwn, wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i mosel. Prif bwrpas cyflwyno'r gwin hwn wedi'i labelu'n gyfangwbl yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren yw tua £1.99.
Gellir prynu CALON LÂN mewn siopau gwin eraill hefyd yn ardal Caerdydd.





**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**

Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd

126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 12



Ar draws:

1. Heb gytundeb (7)
5. Yn hollol sicr (7)
9. (ynghyd â 5 i lawr). Yr hyn mae W.W. yn ddymuno amdano yn nwy linell olaf trydydd pennill yr emyn sydd yn
   Rhif 283 yn 'Y Caniedydd'
   Rhif 477 yn 'Y Llawlyfr Moliant'
   Rhif 377 yn 'Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid'
   (7,2,6,3,1,3)
10. Buarth ysgol neu dŷ neu fferm (4)
11. Mynd yn rhydd (5)
12. Yr un sy'n siarad neu'n ysgrifennu (4)
15. Distryw (7)
16. Mae'r meirwon yn gorwedd yn y ....... (7)
17. Llesol, buddiol (7)
19. Hen enw ar y rhandir ym Morgannwg sy'n ymestyn o'r Caerau, trwy Faesteg i lawr heibio i Langynwyd (3,4)
21. Llefaru (4)
22. Anadnabyddus (5)
23. Enw ar ran o Gaerdydd (1,3)
26. Y wlad yn gyfan (yn enwedig Cymru) (6,1,8)
27. Gwylio rhag (7)
28. "Tir y ......." oedd teitl llyfr i blant gan Tegla(7)

I Lawr:

1. Tynfa (swynol weithiau) (7)
2. Yn y cyflwr hwn yr ydych yn wir dlawd (3,2,2,5,3)
3. Niwl (4)
4. Y noson cyn heno (7)
5. Gweler 9 ar draws.
6. Asbri (4)
7. Ail linell y cwpled, "Segurdod yw clod y cledd, . ... .. .. ....... (1,3, 2,2,7)
8. Yr wyt wedi ei droi yn hylif (7)
13. Y maent yn ysu (5)
14. Gwarth (5)
17. Disyfl (7)
18. Pennaeth chwarel, neu ar long neu awyren (7)
19. Byddid yn arfer tynhau (7)
20. Rhaid llenwi pob sgwâr agored ag un (7)
24. Yn perthyn i'r gymdogaeth(4)
25. Nid y ffrynt (4)

LLANWER GAN YR YMGEISYDD

Enw: ..........................

Cyfeiriad: ....................

..............................

Dyddiad eich geni: ............

Ai tocyn llyfr ai tocyn record a ddymunwch ...................

CYSTADLEUAETH I RAI FYDD O DAN 18 OED AR EBRILL 30ain.

Cliwiau uniongyrchol y tro hwn, nid rhai cryptig. Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg neu docyn record Cymraeg gwerth £5 am y datrysiad cywir cyntaf a agorir. Anfonwch eich atebion, i gyrraedd erbyn Ebrill 22ain, at Gwyn Lewis Davies, Ardwyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd. Fe gyhoeddir yr enillydd yn rhifyn Mai ac hefyd enw pob un a enfyn ddatrysiad cywir cyn i rifyn Mai fynd i'r wasg. Nodwch ddyddiad eich geni ar eich cais.

## C.N.D. Parhad o dudalen 1.

Mae'r syniad yma wedi ennill cefnogaeth pobl bwysig Nato. Un ohonynt yw'r Cadfridog Haig sydd nawr yn un o gynghorwyr yr Arlywydd Reagan. Nid oes neb yn ethol y bobl 'ma sy'n eistedd ar bwyllgorau cyfrinachol Nato, ond maent yn gwneud penderfyniadau sydd yn effeithio ar bob un ohonom ni. Er enghraifft yn 1979 dywedodd Mrs. Thatcher yn y Senedd fod yr hen arfau Polaris yn cael eu newid i'r Trident - cost o £5,000,000,000. Nid oedd trafodaeth o gwbwl - gwnaethpwyd y penderfyniad flynyddoedd cynt yn un o bwyllgorau Nato.

Rhaid i ni gyd sylweddoli'r argyfwng. Ni chawn weld 'The War Game' ac ni chawn wybodaeth am wir effeithiau bom niwclar. Mae'r propaganda wedi dechrau'n barod ac rydym yn prysur gyfarwyddo â'r syniad o ddyfodol ar ôl rhyfel niwclar. Rhaid i ni ddeffro a sylweddoli beth sydd yn digwydd. Aeth tua wyth gant o gwmpas y dref bore Sadwrn ar ôl y ffilm mewn gorymdaith CND (Campaign for Nuclear Disarmament) ac os hoffech chi ymuno â'r mudiad CND i gael mwy o wybodaeth neu anfon arian, ysgrifennwch at CND, 43 Charles St., Caerdydd.

## 'STEDDFOD Y DYSGWYR

Cynhelir Eisteddfod Flynyddol Dysgwyr Cymraeg Morgannwg a Gwent ar nos Fercher yr 8fed o Ebrill yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy gan ddechrau am saith o'r gloch. Croeso cynnes i'r Cymry Cymraeg ddod i gefnogi'r fenter yma.

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.